

## Datganiad yn dod â'r Parth Gwylidwriaeth â'i ganolbwynt yng nghyfeirnod grid **SM8487708322**.

Cadarnhaodd Prif Swyddog Milfeddygol Cymru fod y fflw adar pathogenig iawn yn bresennol ar safle yng Nghymru yn unol ag erthygl 28(1) o Orchymyn Fflw Adar a Fflw sy'n Deillio o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) (Rhif 2) 2006<sup>1</sup> ("y Gorchymyn").

Yn unol â'r erthyglau 28(1), 29(2) a 31(1) o'r Gorchymyn, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru Barth Gwylidwriaeth â'i ganolbwynt yng nghyfeirnod grid **SM8487708322** a ddaeth i rym yn wreiddiol ar 21:30 ar 9 Medi a wnaeth cael ei ailddatgan ar 15:49 ar 25 Hydref 2022.

Mae o leiaf 30 diwrnod wedi mynd heibio ers cynnal y mesurau glanhau a diheintio rhagarweiniol y cyfeirir atynt yn Rhan 2 o Atodlen 3 i'r Gorchymyn, ym mhob safle heintiedig yn y parth hwnnw. Yn unol ag erthygl 36(3) o'r Gorchymyn, mae Gweinidogion Cymru drwy hyn yn dod â'r Parth Gwylidwriaeth hwnnw i ben.

Mae'r holl dermau a ddefnyddir yn y Datganiad hwn wedi'u diffinio yn y Gorchymyn.

Daw'r Datganiad hwn i rym am 13:30 ar 31 Hydref 2022.

Llofnodwyd: Gavin Watkins, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru Dros Dro

Dyddiedig: am 12:35 ar 31 Hydref 2022

O dan awdurdod y Gweinidog Materion Gwledig a'r Gogledd, a'r Trefnydd.

Ceir copïau o'r Datganiad hwn ac o'r Gorchymyn ar wefannau Llywodraeth Cymru a chan Lywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

<sup>1</sup> Rh.S. 2006/2927 (Cy. 262) fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Fflw Adar (Cymru) (Diwygio a Dirymu) 2022 OS 2022/280 (Cy. 81)